## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (MAN I'R DE O GYFFORDD GLAN-BAD, PONTYPRIDD, RHONDDA CYNON TAF) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, ger Cyffordd Glan-bad, Rhondda Cynon Taf.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a ganlyn:

i. y darn o'r llain galed sy'n gyfagos i gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.12 cilometr i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r A4054 a'r A468, hyd at ddechrau'r ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd Glan-bad, Pontypridd;

ii. y darn o gilfan gyfagos i gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd, a leolir 1.2 cilometr i'r gogledd o ganolbwynt cyffordd yr A470 â'r A4054 a'r A468.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Chwefror 2024. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol rhwng 20:00 o'r gloch ar 1 Chwefror hyd 06:00 o'r gloch ar 31 Gorffennaf 2024 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A470 TRUNK ROAD (SOUTH OF UPPER BOAT JUNCTION, PONTYPRIDD, RHONDDA CYNON TAF) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road near Upper Boat Junction, Rhondda Cynon Taf.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the following lengths of the trunk road:

i. the length of the hard shoulder adjacent to the northbound carriageway of the trunk road that extends from a point 1.12 kilometres north of the centre-point of its junction with the A4054 and A468 to the start of the northbound exit slip road at Upper Boat Junction, Pontypridd;

ii. the length of lay-by adjacent to the northbound carriageway of the trunk road, which is located 1.2 kilometres north of the centre-point of the A470/A4054/A468 junction.

The Order comes into force on 1 February 2024. The temporary prohibition is expected to operate from 20:00 hours on 1 February until 06:00 hours on 31 July 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government